

Crynodeb o gwestiynau a thrafodaeth o'r sesiwn Briffio Darparwyr ar yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd (2 Tachwedd 2020)

Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r cwestiynau a'r drafodaeth a gafwyd yn sesiwn briffio darparwyr ar yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd y QAA, a gynhaliwyd ar 2^{il} Tachwedd 2020. Mae [recordiad llawn o'r sesiwn](#) ar gael ar wefan QAA.

Cwestiynau

1 A fydd QAA yn anfon allan yr holiaduron [at gyflogwyr a phrentisiaid]? Os felly, a fydd y sefydliadau / undebau myfyrwyr yn cael gweld yr ymatebion? (16.40)

Bydd QAA yn anfon yr holiaduron at y prif ddarparwydd. Bydd yn ofynnol i'r prif ddarparwydd ddsbarthu'r rhain ymysg prentisiaid a chyflogwyr (y dull hwn yw'r ffordd symlaf o ran gofynion GDPR). Ni fydd y canlyniadau'n cael eu rhannu gydag undebau myfyrwyr na darparwyr fel y cyfryw, fodd bynnag byddant yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer timau adolygu. Maent yn fan cychwyn ar gyfer meysydd y gallai'r tîm adolygu eu harchwilio. Bydd cyfeirnodau priodol ar gyfer yr holiaduron, yn yr un modd ag y byddem yn mynd ati i gynhyrchu adroddiad drafft. Os oes gan dimau adolygu gwestiwn, byddant yn agored ynghylch o ble mae hwn wedi codi.

2 Sut olwg fydd ar gyflwyniad y darparwydd [Dadansoddiad Myfyriol] yn ymarferol? A oes templed / enghraifft? (18.09)

Mae'n bwysig meddwl am yr egwyddorion yn nhermau proses. Adolygiad datblygiadol yw hwn, felly bydd y timau adolygu'n archwilio sut mae darpariaeth wedi datblygu, ynghyd â'i photensial wrth symud ymlaen. I wneud hyn, rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau o ran y nodweddion - mae elfennau unigryw a defnyddiol yn perthyn i'r [Datganiad Nodweddion](#). Dyma'r deilliannau, ac mae yna feysydd i'w hystyried a fyddai'n ategu'r deilliannau hyn. Dyma rai o'r meysydd y bydd gan y timau adolygu ddiddordeb ynddynt.

Rydym yn disgwyl bod y cyd-destun sefydliadol yn cael ei ddarparu yn y Dadansoddiad Myfyriol (DM). Er enghraifft, sut mae darpariaeth Prentisiaethau Gradd yn cyd-fynd â'ch strategaeth a chyd-destun y nodweddion o ran eich myfyrwyr a'r pynciau rydych chi'n eu cynnig. Mae hefyd yn ddogfen fyfyriol, oherwydd rydyn ni'n ystyried datblygiad y rhaglenni hyn. Mae angen i'r ddogfen fod yn fyfyriol yn ei chyfanrwydd, ac mae angen iddi gynnwys trosolwg o sut mae'r rhaglenni hyn wedi'u datblygu a'u cyflwyno. Dylai'r ddogfen fod yn ceisio cynnig cydbwysedd o ran tystiolaeth ar draws y ddarpariaeth, nid dim ond mewn llwybrau rhaglenni. Dylai hyn ddarparu golwg gynhwysfawr (ond nid cyflawn) ar y ddarpariaeth. Mae'r DM yn ganllaw i adolygwyr. Pan ddaw'r adolygwyr ar draws llwybrau rhaglenni, byddant yn cadarnhau datblygiad rhaglenni yn ymarferol. Nid oes enghraifft na thempled ar gael ar gyfer y DM.

3 A oes unrhyw gydweithrediad / gorgyffwrdd â system Lloegr? Er enghraifft, lle mae gan gyflogwyr ddarpariaeth yn Systemau Prentisiaeth Gradd Cymru a Lloegr, a ofynnir iddynt am eu profiad o hyn? (36.38)

Nid oes unrhyw orgyffwrdd â Lloegr. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y meysydd peilot a ariennir gan CCAUC: digidol, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Mae'n bosib bod gan gyflogwyr yn Lloegr brofiad defnyddiol. Byddwn yn canolbwyntio ar elfen Cymru - gallai fod yn ddefnyddiol i gyflogwyr gymharu'r hyn sy'n gweithio'n dda neu'r meysydd sydd angen eu cryfhau. Bydd angen gwybodaeth gefndir ar yr holiaduron er mwyn i gyflogwyr ddarparu rhywfaint o gyd-destun. Byddant yn nodi'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yn ogystal â rhai o'r cwestiynau lefel uwch, er enghraifft: sut mae hyn yn gysylltiedig â meysydd gweithgaredd eraill a phrentisiaethau eraill y gallent fod yn rhan ohonynt?

4 Os yw cyflogwyr yn ymwneud â Sefydliadau AU / Colegau AB, a fydd yr ymweliadau'n cael eu cyfuno? Mae potensial i gyflogwyr mawr ymwneud â sawl adolygiad. (38.30)

Byddwn yn ceisio osgoi hyn wrth ddethol samplau. Ni fyddem am ymweld â nhw ddwywaith; yn yr un ffordd, ni fyddem fel arfer yn siarad â'r un bobl ddwywaith mewn adolygiad, felly byddai'r un egwyddor yn berthnasol.

5 A fyddwch chi angen i Sefydliadau AU ddarparu'r cyd-destun i gyd-fynd â'r holiaduron, neu a yw hyn yn rhywbeth y bydd QAA yn ei baratol? (39.36)

Bydd QAA yn darparu rhywfaint o gyd-destun generig i gyd-fynd â'r holiadur. Gall y darparwydd ychwanegu rhywfaint o gyd-destun o'u persbectif a'u dull gweithredu nhw os ydynt am wneud hynny. Mae'n debygol y byddai cyflogwyr hefyd yn croesawu cyswllt gan y prif ddarparwydd.

6 A oes gan y garfan bresennol o adolygwyr brofiad o adolygu darpariaeth prentisiaeth / dysgu yn y gwaith? (44.52)

Oes, mae'r arwyddion ar hyn o bryd yn dangos bod gennym nifer o bobl (ymysg adolygwyr Cymru) sydd â phrofiad a gwybodaeth am Brentisiaethau Gradd. Mae gennym garfannau o adolygwyr eraill wrth gefn os oes angen, ond rydym wedi ymrwymo i gael o leiaf un aelod o bob tîm adolygu sydd â phrofiad o AU yng Nghymru.

Trafodaethau ar wahân - themâu a sylwadau

1 Eglurder ynghylch disgwyliadau cyffredinol Llywodraeth Cymru

Sylwadau: Beth yw disgwyliadau cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran deilliannau'r adolygiad hwn? Mae angen gwneud hyn yn gliriach i ddarparwyr. Wrth i'r broses adolygu fynd rhagddi, mae'n bwysig bod cymaint o eglurder â phosibl o ran disgwyliadau a osodir ar sefydliadau. Mae hefyd angen ymgais i gael rhywfaint o gysondeb, gan roi ystyriaeth i wahanol ddulliau gweithredu.

Sylwadau: Byddai dull mwy strwythuredig o gymorth i sefydliadau wrth iddynt ddarparu gwybodaeth, a byddai hyn hefyd o fudd i'r adolygwyr. Sut allwn ni sefydlu ffordd strwythuredig o ddarparu'r wybodaeth, ar yr un pryd â rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i sefydliadau? Gallai hyn helpu i ganolbwyntio trafodaethau, yn enwedig yng nghyd-destun pobl yn 'blino ar Zoom'.

Ymateb QAA: Bydd pob sefydliad yn mynd i'r afael â hyn mewn ffordd wahanol. Mae eglurder o ran disgwyliadau yn bwysig o ran yr allbwn. Efallai y bydd ychydig mwy o wybodaeth am strwythur yr adroddiad terfynol yn helpu adborth o ran yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yn adroddiadau terfynol y darparwyr hefyd. Mae'n bosib y byddwn yn rhoi

sylwadau ar rai meysydd ond heb ddod i gasgliadau, er enghraifft, cydraddoldeb ac amrywioldeb. Mae'r rhain yn feysydd lle gallwn ddarparu ffeithiau yn unig. Mae yna heriau mewn meysydd y mae disgwyl i ni greu adroddiad amdanynt, ond mae yna feysydd hefyd y bydd angen i ni wneud sylwadau arny'n nhw yn ffeithiol.

Sylwadau: Os nad oes llawer o ganllawiau ar yr hyn sydd i'w gynnwys yn y ddogfen adolygu, mae potensial i hyn droi allan i fod yn brofiad hirfaith. Fodd bynnag, bydd yn wahanol yn achos pob sefydliad. Gall creu cymhariaeth rhwng sefydliadau, a sut mae pob un yn perfformio wrth ddarparu prentisiaethau, fod yn her go iawn. Mae'n anodd i adolygwyr lunio cyfatebiaethau - ond ni fydd yn ddarlun cyflawn gan y bydd y sefydliad yn cynnwys yr hyn sy'n mynd yn dda, yn ogystal â rhai pethau sydd angen sylw pellach. Nid oes disgwyl i bobl dynnu sylw at bob agwedd.

Ymateb QAA: Rydym am ei wneud y profiad dysgu gorau posibl i ddarparwyr, yn ogystal â chydabod y bydd darparwyr ar wahanol gamau o'r daith, ac yn gweithio gyda gwahanol fathau o gyflogwyr. Bydd rhan o hyn yn dibynnu ar hyfforddiant adolygwyr fel eu bod yn ymwybodol o'r heriau.

2 Lefelau gweithgareddau Prentisiaethau Gradd mewn gwahanol fudiadau

Sylwadau: Mae gan rai sefydliadau isadeiledd ar gyfer datblygu staff i gynorthwyo datblygiad Prentisiaethau Gradd, ond mae eraill yn cyfuno hyn â phrosesau sicrhau ansawdd sy'n bodoli eisoes. Disgwylir y bydd prosesau sicrhau ansawdd arferol, os cânt eu haddasu ar gyfer Prentisiaethau Gradd, yn rhan o'r naratif.

3 Cynrychioli / cofnodi llais cyfunol prentisiaid

Sylwadau: Mae pryder ynghylch casglu a chofnodi llais cyfunol prentisiaid, yn enwedig o ystyried y profiad a gafwyd wrth gasglu llais myfyrwyr yn ystod yr Adolygiad o Raddau Sylfaenol yng Nghymru. Mae pryder y bydd yn anodd cael cyflwyniad ar wahân sy'n cynrychioli llais prentisiaid.

Ymateb QAA: Byddai cyflwyniad gan brentisiaid yn ddelfrydol, ond mae yna ffyrdd eraill o gasglu tystiolaeth. Mae angen casglu a chofnodi llais y prentisiaid mewn rhyw ffordd.

4 Syrffedu ar arolygon

Sylwadau: Mae pryder bod llawer yn y sector wedi syrffedu ar arolygon. Bydd darparwyr yn cysylltu â phrentisiaid ynghylch eu cyflwyniad, ac yna anfonir holiadur iddynt hefyd. A fyddai modd cydblethu'r rhain? A allai darparwyr weld y canlyniadau, yn hytrach na chysylltu â phrentisiaid ddwywaith?

Sylwadau: Mae adolygiad arall wedi'i gydlynw gan *WaveHill*, felly cysylltwyd â chyflogwyr eisoes ynghylch yr adolygiad hwn. Mae angen eglurhad o ran diben yr adolygiad ar gyflogwyr a phrentisiaid. Mae angen bod yn glir ynghylch pam mae rhywun arall yn cysylltu â nhw ynglŷn â'u prosesau.

5 Cyflogwyr mwy yn gweithio ar draws amryw o Sefydliadau AU

Sylwadau: Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r cyflogwyr mwy yn gweithio ar draws sawl Sefydliad AU, gan gynnwys rhai yn Lloegr. Mae rhai o'r Colegau AB hefyd yn gweithio ar draws sawl Sefydliad AU. A yw'n bosib i QAA fapio pa ddarparwyr sy'n gweithio gyda phob cyflogwr? Mae pryder y bydd cyflogwyr yn cael eu peledu gan sefydliadau'n anfon holiaduron atynt. Gellid dileu rhywfaint o orgyffwrdd pe bai'r cam cyntaf yn mapio

partneriaethau, yn debyg i fap o ddarpariaeth gydweithredol ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd (QER).

Ymateb QAA: Nodwyd nad oes llawer o wybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog am weithgaredd Prentisiaethau Gradd, ac y gallai arolwg cychwynnol o bartneriaid cydweithredol (colegau a chyflogwyr) gan QAA fod yn ymarfer defnyddiol.

6 Adolygiad Prentisiaethau Gradd fel DPP

Sylwadau: Cawn ein hannog i feddwl am yr adolygiad fel DPP a dysgu o'n profiad ar y cyd. Mae gwybod bod QAA yn edrych ar hyn ar sail darparwyr yn golygu bod cyfle i ddysgu oddi wrth ein gilydd.

Ymateb QAA: Os ydym yn dal i weithredu ar-lein, bydd cyfle i rannu dysgu yn weddol hawdd.

7 Ymwybyddiaeth o ba gam datblygiad o ran Prentisiaethau Gradd mae pob darparydd wedi'i gyrraedd

Sylwadau: Oherwydd y broses gomisiynu, roedd rhai sefydliadau'n gallu dechrau eu darpariaeth ynghynt nag eraill. Sut y gellir casglu a chofnodi'r wybodaeth hon yn yr un fformat â'r cyflwyniad? Mae amrywiaeth o ran pa gam yn y ddarpariaeth mae pob darparwr.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2020

Rhif cofrestru'r elusen: 1062746 a SC037786

www.qaa.ac.uk